

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI A GYNHALIWDYD NOS FAWRTH,

11eg Gorffennaf 2023 YN Y GANOLFAN TALYSARN AM 7.00YH

1. **Presennol** - Ceri Owen (Cad), Barry Bracegirdle, Erfyl Williams, Justin Davies, Judith Humphreys (Penygroes), Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts (Llanllyfni), Siân Dafydd, Harry Owen, Gareth Jones (Talysarn), Ffion Jones (Nantlle), Cyng. Peter Thomas.

Roedd aelod o'r cyhoedd yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

Ymddiheuriadau –Christine Hughes (Llanllyfni), Dafydd Thomas (Nebo).

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y gadeiryddes Ceri Owen.

2. **Datgan Buddiant** – dim.

3. **Gwadd - Mair Edwards a Gwyndaf Williams Grŵp Cynefin** - croesawyd y ddau i'r cyfarfod a rhoddwyd yr amser drosodd iddynt roi diweddariad i'r Cyngor ar ddatblygiad yr Hwb Iechyd. Adroddwyd bod pethau yn dod ymlaen yn llwyddiannus a'u bod yn symud drwy'r camau perthnasol. Cais cyn-gynllunio wedi ei roi ymlaen i Gyngor Gwynedd ar gobaith yw y bydd y cais cynllunio llawn yn mynd fewn Mawrth 2024 ac os fydd popeth yn parhau i fynd yn iawn yna gobeithio dechrau ar y gwaith ar ddechrau 2025. Cyfarfodydd cymunedol yn dechrau'r wythnos nesaf. Gwaith ymchwil o'r tir, ystlumod ayyb wedi bod yn mynd ymlaen. Grŵp Cynefin ac un cwmni arall wedi cael caniatâd dros dro i gadw nwyddau ar y safle. Yn ystod y sgwrs gyda Cynefin dyma'r prif addasiadau gafodd eu cynnig i'r cynllun ar gyfer y ganolfan iechyd - 1. Ystyried ail fynedfa i'r maes parcio newydd o Heol Buddug sef lledaenu y ffordd presennol sy'n mynd rhwng y tai a Llys Meddyg. Bwriad hyn yw i osgoi parcio di-drefn ar hyd Heol Buddug fydd yn debygol o ddigwydd wrth i bobl stopio i ollwng rywbeth yn gyflym yn y derbynfa. 2. Ystyried rhoi manau parcio ar hyd yr ffordd newydd arfaethedig i'r maes parcio newydd. Rydym yn teimlo heb hyn na fydd pobl yn dreifio i'r maes parcio a bydden nhw'n parcio ar hyd y pafin er mwyn mynd i'r Co-op. Yn yr 'access statement' a ddaeth gyda cais cynllunio y Co-op newydd roedd y frawddeg ganlynol. " Additional parking is available on the existing highway, and in the public carpark opposite" . Roedd hyn yn eflen bwysig yn y datblygiad ac yn elfennol ym mhenderfyniad y cyngor cymuned i dderbyn y cais cynllunio ar gyfer y Co-op newydd gan bod y nifer o lefydd parcio a oedd yn rhan o'r datblygiad hwn yn amlwg ddim yn ddigon. 3. Mae'r bwriad o gynnwys caffi yn y ganolfan iechyd newydd yn achosi pryder gan bod hyn am gystadlu gyda'r nifer o gaffis sydd yn y pentref yn barod. Nid yw'r syniad o ofyn i'r busnesau yma rhannu eu amser i rhedeg caffi y ganolfan newydd yn ymarferol chwaith. Rydym yn teimlo bod rhoi peiriannau vending a hunan wasanaeth yn y caffi yn gwneud gwell synnwyr ac nid cegin sy'n gwerthu prydau llawn. Gofynnwyd a bydd Meddygfa Corwen House a'r fferyllfa yn cau - edrych ar eu symud i'r safle newydd. Bydd hefyd angen ystyried beth ellir ei wneud gyda'r adeiladau gwag os fydd y feddygfa, clinic a'r fferyllfa yn symud i'r safle newydd. Hefyd bydd ymgynghoriad yn dechrau wythnos nesaf ynglŷn â chreu dwy uned fusnes (start up). Diolchwyd i Mair a Gwyndaf am eu hamser a chytunwyd iddynt ddod yn nôl mewn ychydig fisoedd i roi adroddiad arall.

7.30pm – Judith Humphreys cyrraedd y cyfarfod

4. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod 13eg Mehefin 2023** - Cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir.

5. **Materion yn codi o'r cyn cofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd - Tir Cwtin** - dim ymateb wedi ei dderbyn gan Siân Gwenllïan ynglŷn â'r cais i Lywodraeth Cymru gywiro'r Llanast a adawyd yn Cwtin yn dilyn y gwaith ar y ffordd osgoi. **Parcio Stryd Fawr Penygroes** - yn dilyn gyrru ebost i'r cwmni ynglŷn â llawer o'u cerbydau yn cael eu parcio ar y ffordd derbyniwyd ymateb gan y perchennog yn nodi ei anfodlonrwydd am hyn a bod ganddynt berffaith hawl parcio ar y stryd - roedd pawb wedi derbyn copi o'r ebost i'w ddarllen cyn y cyfarfod a rhoddwyd cyfle i bawb roi eu barn. Mae'r parcio yn broblem ar y stryd fel ymhob pentref a Stryd Fawr arall mwyaf tebyg. Esboniwyd efallai bod y neges a roddwyd i'r cwmni wedi ei gyfleu / gymryd y ffordd anghywir ac nid oedd yn fwrriad gan y Cyngor Cymuned i

achosi gofid i neb ac mae yn hollol gywir bod gan bawb hawl i barcio cerbydau cyfreithlon ar y ffordd. Adroddwyd bod ymgynghoriad wedi ei wneud rhai blynyddoedd yn nôl am y parcio hyn - am weld os oes mwy o fanylion i'w gael gan Gyngor Gwynedd am hyn. Rhoddwyd cyfle i berchenog y cwmni a oedd yn bresennol yn y cyfarfod ddweud gair - diolchodd am y cyfle hwn a diolchodd i bawb am roi o'u hamser i'r Cyngor Cymuned ac am ymdrin ar mater hwn yn y ffordd a wnaethpwyd heno. Maen nhw yn gwmni sydd yn cyflogi 10 o bobl ac sydd yn rhoi fewn i'r economi ac felly roedd yn siomedig o dderbyn y neges hon. Diolchwyd iddo am ddod i'r cyfarfod. Gadawodd y cyfarfod a pharhawyd i drafod y materion eraill ar yr agenda. **Ffordd Y Sir** - meddwl bod y mater yma wedi ei drafod o'r blaen a bod ymgynghoriad wedi bod i'w wneud yn un ffordd ond nid oes dim wedi digwydd wedyn. **Llwybr o'r Stryd Fawr i Ffordd Haearn Bach** - y clerc wedi sôn wrth y contractwyr am hyn. **Sbwriel mynwentydd** - y sbwriel wedi ei glirio a'r arwydd newydd wedi ei osod yng Ngorffwysfa. Cynigwyd y dylid monitro'r sefyllfa. **Cwt Gorffwysfa** - dim wedi derbyn pris felly trio cael erbyn y cyfarfod nesaf. **Safle bws Penygroes** - bydd y gwaith yn cael ei wneud i atgyweirio'r safleoedd fory.

6. Adroddiadau gan y Cyngorwyr Sir - roedd adroddiad wedi ei derbyn gan Cyng. Peter Thomas ac roedd pawb wedi cael cyfle i'w gweld cyn y cyfarfod. Nid oedd dim yn codi o'r adroddiad. Diolchwyd i Cyng. Thomas am ei adroddiad.

7. Cyfarfodydd is-bwyllgorau - nid oedd is-bwyllgor wedi ei gynnal yn ystod y mis.

8.05pm - Ffion Jones cyrraedd y cyfarfod.

8. Materion Pentrefi - Talysarn - Arwyddion 15mya wedi fadio ac angen sylw. Cofeb R W Parry - rhywun wedi codi'r pwynt nad yw'r ysgrifen i'w weld bellach ar y gofeb. Yn dilyn trafodaeth roedd rhai o'r farn y dylai'r Cyngor Cymuned fod yn gyfrifol am y gofeb ac eraill o'r farn na ddylid. Cynigwyd i gael pris ar y gwaith o ail beintio'r llythrennau. Peipen ddŵr wedi byrstio wrth Bryn Derwen ac angen sylw. Tyllau ar Lôn Bryn Celyn. Ragwort yn tyfu ymhob man ac angen i Gyngor Gwynedd ddod allan i'w waredu. **Nantlle** - dim yn codi. **Llanllyfni** - y twll ar Lôn Ddŵr wedi ei lenwi ond yn anffodus wedi dechrau suddo eto. **Penygroes** - gofyn a oes posib holi Cyngor Gwynedd pryd maent am ddod i roi chwynladdwr ar y strydoedd a pryd mae'r tîm tacluso am ddod i lanhau'r sbwriel. Adroddwyd bod pawb yn ddiolchgar i Gyngor Gwynedd am ail-wynebu'r Stryd Fawr a hefyd adroddwyd bod yna lawer yn mynychu'r clwb ieuenctid. Y clerc i gysylltu gyda'r gwahanol sefydliadau am y materion hyn.

9. Taflen ariannol a chyllid - roedd pawb wedi cael copi o'r gyllideb cyn y cyfarfod i edrych drosto ac aeth Gareth drwy'r gyllideb. Nid oedd dim yn codi. Argymhelliad wedi ei dderbyn gan yr archwilwyr i gael dau aelod o'r pwyllgor i gymeradwyo taliadau electronig. Y clerc wedi edrych fewn i hyn ac wedi ymweld â'r banc ond ar hyn o bryd methu cael synnwyr ar sut i wneud hyn ac mae'r banc o dan yr argraff nad yw hyn yn bosib. Awgrymodd Gareth y dylid cynnal is-bwyllgor cyllid yn fuan. Trafod dyddiad yng nghyfarfod mis Medi.

10. Contract Cae Macpela - mae'r contract yn dod i ben ar 31 Awst 2023. Cynigwyd ac eiliwyd gadael i'r tenant aros yno, ond yn y dyfodol bydd angen gosod tap dŵr ac yna ail-dendro yn dilyn hyn. Adroddwyd bod y lleoliad yn daclus iawn gan y tenant. Cytunodd pawb gyda hyn.

11. Llwybrau a Mynwentydd - y powltiau ar arwyddion giât Macpela yn sticio allan ac angen eu torri lawr os yn bosib. Cytunwyd i wneud hyn. Plotiau llwch mynwent Macpela - gan fod y lleoliad cynt nawr wedi ei lenwi trafodwyd i roi'r plotiau newydd ochor draw i'r wal ble mae claddedigaethau llawn yn cymryd lle rŵan. Nid oedd un ymgymwr yn rhy hoff o'r syniad hwn a gofynnodd a oedd modd ail-edrych a'u rhoi mewn lle arall. Cafwyd cyfarfod gyda'r ymgymwr i weld lle arall fuasai posib eu rhoi a chynigiodd pe bai modd eu rhoi yn y lle gwag wrth y ffens yng ngwaelod y rhesi? Cytunwyd i hyn. Llwybr o Tan Y Bryn i Lanllyfni angen sylw.

12. Ceisiadau Cynllunio -

- C23/0185/22/CR – Arfon, Heol Buddug, Penygroes – Addasiad i eiddo i gynnwys estyniad i’r ddwy ochr – nid oedd dim gwrthwynebiad i’r cais hwn.

13. Problem parcio Ffordd Nantlle, Talysarn – roedd ebost wedi ei dderbyn gan aelod o’r cyhoedd sydd yn byw ar stryd - darllenwyd yr ebost i bawb. Adroddodd Cyng. Peter Thomas bod llinellau melyn i fod i gael eu rhoi lawr wythnos nesaf a hefyd bod arwyddion i fyny yn barod. Cais cynllunio wedi ei roi fewn gan Dorothea am y lle parcio a nid oedd dim gwrthwynebiad wedi ei ddangos gan y Cyngor Cymuned am hwn.

14. Manylion cyswllt ar y wefan - trafodwyd a phenderfynwyd yn unfrydol i newid manylion cyswllt cynghorwyr ar y wefan i ddim ond angen cyfeiriad e-bost. Y clerch i gysylltu er mwyn i’r newid yma gael ei wneud cyn gynted ag y bo modd.

15. Gohebiaeth – nid oedd dim yn codi o’r ohebiaeth a oedd wedi ei dderbyn yn ystod y mis.

16. Materion ariannol - cytunwyd i dalu'r rhain. Bellach adroddiad yr archwiliad wedi ei dderbyn felly iawn i’w dalu.

- Nia Jones - Ffôn a rhyngrwyd - **£25.00**
- Antur Nantlle – adnewyddu enw parth - **£31.20**

17. Unrhyw fater arall - Robin Williams Taldrwst wedi cysylltu gyda’r clerch i ofyn a oes modd iddo ddod i un o’r cyfarfodydd er mwyn trafod y materion sydd wedi eu codi. Cytunwyd i’w wahodd i gyfarfod mis Hydref.

Diolchwyd i bawb am fod yn bresennol a bydd y cyfarfod nesaf yw gynnal nos Fawrth, 12fed Medi 2023 am 7.00yh.